

JONES, HUW (1700? - 1782), o Langwm, bardd a chyhoeddwr, ac un o brif faledwyr y 18fed ganrif

Enw: Huw Jones

Dyddiad geni: 1700?

Dyddiad marw: 1782

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: bardd a chyhoeddwr, ac un o brif faledwyr y 18fed ganrif

Maes gweithgaredd: Cerddoriaeth; Perfformio; Barddoniaeth; Argraffu a Chyhoeddi

Awdur: Ernest Edward Wynne

Gweithiodd drwy ei oes fel gwas ar amryw ffermydd. Cyfansoddodd dros 100 o gerddi. Cyhoeddwyd hwy ynghyd â cherdd neu ddwy o waith beirdd eraill ei gyfnod mewn 79 o bamffledi, y rhan fwyaf ohonynt yn 8 tudalen, ac fel rheol yn dwyn y teitl 'Dwy o Gerddi Newyddion' neu 'Tair o Gerddi Newyddion.' Nid oes dyddiad i 19 ohonynt. Am y lleill, perthyn y cynharaf ohonynt i'r flwyddyn 1727 a'r ddiweddaraf i'r flwyddyn 1813. Argraffwyd hwy yng ngwasgau Cymreig Amwythig, Bala, Bodedern, Caer, Caerfyrddin, Trefriw, Wrecsam, a chan wasgau anadnabyddus. Cyhoeddwyd o leiaf bedwar o'r pamffledi hyn wedi ei farw; [ni wyddys ddydd ei farw, ond y mae tystiolaeth mai 1782 oedd y flwyddyn].

Ymddrin llawer o'r cerddi â thestunau crefyddol megis edifeirwch, angau, a thragwyddoldeb. Canodd gerddi beiblaidd ar 'Anedigaeth Crist a'i Wrthiau,' 'Cofia gadw yn sanctaidd y Dydd Sabbath,' 'Ymddiddan rhwng Abab a Jezebel,' a 'Dameg y gwr a syrthiodd ymysg lladron.' Yn ei gerddi moesol goganai yn erbyn cybydd-dod, meddwdod, ariangarwch, cenfigen, a thorri'r Saboth. Brithir ei weithiau â cherddi serch, cerddi yn ymddrin â helyntion ei oes megis 'Cwynfan Teyrnas Loegr ar Drigolion America,' marwnadau, a cherddi yn erbyn tlodi a gorthrwm. Cyfansoddodd hefyd nifer o anterliwtiau megis 'Histori'r Geiniogwerth Synnwyr,' 'Capten Factor,' ac 'Ymddiddan rhwng Protestant a Neillduwr.'

Yn 1759 golygodd *Dewisol Ganiadau yr oes hon*, yn cynnwys gwaith [William Wynn](#) (Llangynhafal), [Goronwy Owen](#), '[Ieuan Brydydd Hir](#),' ac eraill, a gwaith amryw o feirdd nas cyhoeddwyd o'r blaen, eiddo Huw Jones yn eu plith; cafwyd pum argraffiad rhwng 1759 a 1827. Yn 1763 ymddangosodd gwaith arall dan olygiaeth Huw Jones, *Diddanwch teuluaidd*^[g]; yn hwn ceir cerddi beirdd Môn - [Goronwy Owen](#), [Lewis Morris](#), [Hugh Hughes](#), ac eraill. Argraffwyd ef yn Llundain, cafwyd ail argraffiad yn 1817 (Caernarfon), a 3ydd yn 1879 (Lerpwl).

Cyflawnodd Huw Jones waith mawr fel gwerthwr a golygydd llyfrau. Cerddai farchnadoedd a ffeiriau'r wlad yn gwerthu baledi a chwarae rhan mewn anterliwtiau. Nid oes fawr ddim teilyngdod barddonol yng ngherddi Huw Jones. Serch hynny, bu ei lafur llenyddol yn gymorth nid bychan i ennyn a chadw diddordeb gwerin gwlad yn y Gymraeg.

Awdur

Y Parchedig Ernest Edward Wynne, (1981)

Ffynonellau

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Charles Ashton, *Hanes llenyddiaeth Gymreig o 1651 O.C. hyd 1850* (1893), 230-47, 399

J. H. Davies, *A Bibliography of Welsh Ballads printed in the 18th century* (1908-11) 18 century, passim

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908), 256

Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru (1870), 594

Thomas Jones, *Beirdd Uwchaled* (Lerpwl 1930), 36

Notable Welshmen (1700–1900) (1908), 81

T. Parry, *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900* (1944), 205, 207, 209

W. Rowlands, *Llyfryddiaeth y Cymry*, 449-50

Y Traethodydd, 1886, 1887, 1888

Owen Williams, *Awduron Sir Ddinbych a'u gweithiau* (1937), 75-82

Y Genedl, 22 Mehefin 1931

Darllen Pellach

Erthygl Wikipedia: [Huw Jones o Langwm](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [16867753](#)

Wikidata: [Q13129194](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

